## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| **Teitl:**<br><br>Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**<br>*(i'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: **06/10/2019** |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | Julia Huish |
| **Dyddiad:** | Ebrill 2019 |
| **Arweinydd polisi:** | Chris Gittins / Michael Curties / Tracey Breheny |
| **Manylion cyswllt:** | substance.misuse@llyw.cymru |

**Math o Raglen/Prosiect**

| | |
|---|---|
| ☒ Polisi | ☐ Prosiect neu raglen |
| ☐ Deddfwriaeth | |
| ☐ Grant | ☐ Ymchwil, gwerthusiad |
| ☐ Newid busnes | |
| ☐ Seilwaith | ☐ Gwasanaethau |
| ☐ Adeiladu, Cyfalaf | |
| ☐ TGCh | ☐ Contractau, tendrau |
| ☐ Arall (nodwch isod) | |

**Costau: Beth yw'r gost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25k - £49k | £50k - £249k | £250k - £1 miliwn | Dros £1 filiwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, rhowch fanylion unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.**

Amherthnasol

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Mwy na 10 mlynedd | Ddim yn hysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

- Digwyddiadau ennyn diddordeb cyn ymgynghori - Chwefror/Mawrth 2019
- Cwblhau cynllun cyflawni drafft - Ebrill/Mai 2019

- Fforwm Polisi Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 25 Ebrill 2019
- Cyfarfod Tîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol - 16 Mai 2019
- Gohebiaeth i'r Gweinidog i'w dosbarthu i'r Cabinet - Mehefin 2019
- Datganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad - Gorffennaf 2019
- Cyhoeddi'r ymgynghoriad - Gorffennaf 2019.

**CAM 1: CYNLLUNIO**

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**
**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?**

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau, sef 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' (2008-18) wedi dod i ben ar ei ffurf bresennol ac mae Cynllun Cyflawni wedi'i ddatblygu ar gyfer 2019-22 i amlinellu'r blaenoriaethau camddefnyddio sylweddau i'r dyfodol.

Mae'r cynllun cyflawni yn seiliedig ar themâu'r cyn strategaeth camddefnyddio sylweddau ac mae'n amlinellu sut y bydd y gwaith yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg o fewn "Cymru Iachach".

Nod trosfwaol y cynllun yw lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach. Mae'n cynnwys cyfres o fesurau poblogaeth a pherfformiad er mwyn pennu a yw'r cynllun yn llwyddiant neu beidio.

Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol sydd wedi'u datblygu yn dilyn gwaith cyn ymgynghori a phroses ymgynghori ffurfiol, ynghyd â chanfyddiadau'r gwerthusiad o strategaeth 2008-18 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018) a chanfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018).

Ochr yn ochr â'r camau gweithredu a amlygwyd yn y cynllun, rydym hefyd wedi amlinellu meysydd blaenoriaeth pwysig lle y credwn fod angen gwneud mwy o waith er mwyn parhau i wneud cynnydd ar gyfer y bobl hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Bydd y meysydd hyn yn cynnwys gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda phartneriaid allanol, yn arbennig Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried a beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi bron i £53 miliwn y flwyddyn yn y rhaglen hon i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Polisi Llywodraeth Cymru yw lleihau effaith negyddol camddefnyddio sylweddau a gwella'r canlyniadau cadarnhaol i bawb yr effeithir arnynt.

Ers lansio'r strategaeth camddefnyddio sylweddau yn 2008 (a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiol) rydym wedi gweld gwelliannau cyson mewn amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Os na fydd cynllun cyflawni 2019-2022 yn cael ei weithredu, mae risg y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwrthwneud ac y bydd

| |
|---|
| y costau sy'n gysylltiedig â thrin niwed o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau yn cynyddu.<br><br>Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Yn sgil y sefyllfa hon, mae cynllun cyflawni 2019-2022 yn cynnwys nifer o gamau gweithredu gyda'r nod o leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol. Os na fydd y cynllun cyflawni yn cael ei weithredu, mae yna risg hefyd y gall fod cynnydd pellach mewn marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau ac alcohol. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?** |
| Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth *Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* ar gyfer y Gymraeg sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog hefyd yn flaenoriaeth allweddol a chaiff ei chefnogi gan Safonau'r Gymraeg.<br><br>Mewn perthynas ag iechyd, mae'r fframwaith strategol *"Mwy na geiriau..."* yn anelu i gryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg.[1] Mae egwyddorion allweddol y fframwaith hwn wedi'u cynnwys yng nghynllun cyflawni 2019-22 sef y dylai'r holl bobl a sefydliadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.<br><br>Un o ganlyniadau'r cynllun cyflawni 2019-22 yw sicrhau bod *'pobl sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd yn gallu cael cymorth ar gyfer problemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain'*.<br><br>Bydd cwestiynau safonol ynghylch effaith y polisi ar y Gymraeg yn cael eu gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol. Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi ystyriaeth lawn i unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi, ym mhob maes polisi, er mwyn sicrhau polisïau mwy cadarn sy'n unol â'r dyhead o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn sicrhau nad oes canlyniadau anfwriadol i bolisïau Llywodraeth Cymru a dim effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. |
| **Pa effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych chi wedi eu nodi yn ystod y cam cynllunio cychwynnol?**<br>hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg? |
| Mae effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg gan fod camau penodol yn y cynllun ar gyfer Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau fel a ganlyn:<br><br>• Codi ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i wneud y 'Cynnig Rhagweithiol' (darparu gwasanaeth Cymraeg heb fod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i annog eu gweithlu i |

[1] https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/index1b1b.html?force=cy

ddatblygu'r gallu i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith ar-lein ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ychwanegu meysydd at Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) er mwyn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg.

Ar wahân i effeithiau cadarnhaol cyffredinol y cynllun, nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg wedi'u nodi gan swyddogion.

**Pwy yw’r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i’r cynigion?**

Gall materion camddefnyddio sylweddau effeithio ar unrhyw un waeth beth fo'u hoedran, eu cefndir, eu hil, eu crefydd a'u gallu, felly byddai gan bob grŵp o'r cyhoedd ddiddordeb yn y rhaglen. O ran gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn, byddai o ddiddordeb i’r canlynol:

- gwleidyddion (lleol a chenedlaethol)
- byrddau iechyd lleol
- awdurdodau lleol
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- yr heddlu a'r gwasanaeth prawf
- Carchardai EM yng Nghymru
- sefydliadau cymunedol
- darparwyr gwasanaethau a thriniaeth camddefnyddio sylweddau
- Byrddau Cynllunio Ardal camddefnyddio sylweddau

Byddai defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd hefyd yn randdeiliaid pwysig

Efallai y bydd gan grwpiau'r Gymraeg ddiddordeb yn y maes hwn, yn enwedig o ran a yw gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly disgwylir y byddant yn ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion. Ond, rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg yn barhaus.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch adroddiad llawn at ddibenion cadw cofnod.**

Amherthnasol – mae’r effeithiau a nodwyd wedi’u hamlinellu o fewn y templed asesu hwn.

**Pa gamau/gwaith ychwanegol a nodwyd yn y cam cynllunio cychwynnol?**
ee gofynion o ran data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg eu hiaith, nodi rhanddeiliaid neu restr ymgynghori, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg i gael cyngor?

Yn y misoedd cyn datblygu Cynllun Cyflawni 2019-22, cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu (gyda darparwyr gwasanaethau yn y bore a defnyddwyr gwasanaethau yn y prynhawn) yng Nghaerdydd, Casnewydd, Llanelli a Llandudno. Cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol ym Mhowys ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal a defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â digwyddiad penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn ardal Cwm Taf. Cynhaliwyd digwyddiad penodol hefyd gyda phobl ifanc yng Ngorllewin Cymru.

Cafwyd presenoldeb da yn yr holl ddigwyddiadau (cyfanswm o dros 400 o bobl) ac maent wedi bod yn gynhyrchiol ac yn llawn gwybodaeth. Mynediad at wasanaethau oedd un o'r prif themâu a godwyd yn ystod y broses cyn ymgynghori, ond ni chafwyd adborth bod hyn yn gysylltiedig â methu cael gwasanaethau yn yr iaith a ffefrir e.e. Cymraeg. Cafwyd un sylw yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y broses cyn ymgynghori. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â 'sut y gellir ehangu gwasanaethau', cafwyd y sylw canlynol: 'darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill'.

Yn dilyn llunio'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau', nododd swyddogion yr angen i ystyried ymhellach a ddylid ychwanegu cyfeiriadau ychwanegol at safonau'r Gymraeg yn y cynllun cyflawni. Bydd rhaid i'r camau gweithredu hyn hefyd ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu clinigol a diogelwch.

Rydym wedi nodi'r angen i gofnodi nifer y bobl sy'n cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cam gweithredu penodol yn y cynllun ynglŷn â hyn.

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ychwanegu meysydd at Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) er mwyn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg.

Rydym hefyd wedi ceisio cyngor gan Uned y Gymraeg ar yr asesiad o'r effaith a chynllun cyflawni 2019-22 i nodi meysydd lle gellir ei gryfhau ymhellach.

Bydd y ddogfen ymgynghori a chwestiynau am y cynllun cyflawni drafft ar gael yn Gymraeg ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun cyflawni terfynol hefyd ar gael yn Gymraeg.

| CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU |
|---|
| **<u>Crynodeb o’r Asesiad Effaith</u>**<br><br>**Crynhowch yr asesiad o’r effaith manwl a gynhaliwyd ynghyd â’r sgoriau a roddwyd.** |
| **Effeithiau cadarnhaol:** |
| Dylai bod effaith gadarnhaol ar iechyd siaradwyr Cymraeg pan fo'r ymyrraeth a gynigir gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau (yn enwedig pan mae'n cynnwys elfen cwnsela) yn cael ei chynnig yn Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg drafod unrhyw faterion/pryderon yn yr iaith sy'n diwallu eu hanghenion orau.<br><br>Byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y gweithle gan fod cam gweithredu yn y cynllun cyflawni (2019-22) i godi ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i sicrhau’r 'Cynnig Rhagweithiol' (darparu gwasanaeth Cymraeg heb fod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith ar-lein ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Mae Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn cael eu darparu ledled Cymru felly mae'r cam gweithredu hwn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn draddodiadol, oherwydd gall fod camargraff na fyddai’r gwasanaethau hyn ar gael yn Gymraeg. |
| **Effeithiau negyddol:** |
| Nid yw swyddogion wedi nodi unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg ee gwella statws, cynyddu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o’r Gymraeg mewn bywyd pob dydd, y Gymraeg yn y gwaith?** |
| Bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y gweithle. Os yw defnyddwyr gwasanaethau yn gwybod y gallant gael cefnogaeth yn eu dewis iaith, byddai hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac i ddefnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn eu bywyd bob dydd.<br><br>Mae canllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Byrddau Cynllunio Ardal yn pwysleisio bod Llywodraeth Cymru eisiau gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, gyda mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bwysleisio pwysigrwydd gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith y defnyddwyr gwasanaethau |

a sicrhau wrth ddatblygu polisïau bod dull ar gyfer adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn unol â'r canllawiau, disgwylir i Fyrddau Cynllunio Ardal weithio gyda darparwyr gwasanaethau a sefydliadau cynllunio i gyflawni hyn. Ymhellach, os yw'n berthnasol, bydd angen i bob un o gynrychiolwyr y Byrddau Cynllunio Ardal gydymffurfio â'r Safonau perthnasol o ran y Gymraeg.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd gan gynnwys proffil demograffig wrth ystyried yr effeithiau:**

Nid yw data ar gael ar hyn o bryd ar nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae hyn wedi'i nodi fel un o anghenion datblygu data ac mae cam gweithredu i fynd i'r afael â hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun cyflawni (2019-22).

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith / asesiad risg?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad Effaith** | 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

***Os atebwyd 2, 3 neu 4 uchod* – yna atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion camau lliniaru / camau gweithredu / opsiynau amgen er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych chi'n ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau yr ydych chi'n dymuno eu gofyn i randdeiliaid ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Fel rhan o'r broses ymgynghori a gynlluniwyd byddwn yn holi a oes angen cryfhau'r camau gweithredu a gynigiwyd yn y cynllun cyflawni ac a oes unrhyw gamau gweithredu pellach y gallwn eu cynnal. Byddwn yn defnyddio'r adborth o ddigwyddiadau ennyn diddordeb cyn ymgynghori i helpu i deilwra'r cwestiynau hyn yn unol â hynny.

**CAM 3: AR ÔL YR YMGYNGHORIAD A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafwyd cyfanswm o 85 o ymatebion. Ni wnaeth pawb wnaeth ymateb roi sylwadau ar y cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg a holodd rhai beth oedd perthnasedd y cwestiynau.

Ond roedd y rhai wnaeth ateb y cwestiynau ynghylch materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu a rhoi gwybodaeth yn ddwyieithog. Nododd ychydig o’r ymatebwyr nad oedd ganddynt farn benodol ynghylch sut y gellid newid y cynllun cyflawni i gynyddu’r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.

Yn dilyn yr ymgynghoriad a dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd, nid yw'r cynllun cyflawni wedi'i newid o ran y materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Y rheswm dros hyn yw bod y cynllun cyflawni eisoes wedi tynnu sylw at yr angen i gofnodi'r nifer o bobl sy'n cael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a bod cam gweithredu penodol yn y cynllun yn ymwneud â hyn.

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ychwanegu meysydd at Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) er mwyn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg.

Mae'r cynllun cyflawni eisoes yn cynnwys cam gweithredu i godi ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i wneud y 'Cynnig Rhagweithiol' (darparu gwasanaeth Cymraeg heb fod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith ar-lein ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn cael eu darparu ledled Cymru felly mae'r cam gweithredu hwn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn draddodiadol, oherwydd gall fod camargraff na fyddai’r gwasanaethau hyn ar gael yn Gymraeg.

**Sut y byddwch chi’n monitro’r effeithiau parhaus wrth roi’r polisi ar waith?**

Bydd materion a gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn barhaus yn ystod cyfnod gweithredu cynllun cyflawni 2019-22.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Camddefnyddio Sylweddau yn goruchwylio darpariaeth y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Bydd y Bwrdd hefyd yn arwain ac yn monitro cynnydd, ac yn hwyluso cydlynu'r dull gweithredu trawsbynciol yn Llywodraeth Cymru, Asiantaethau Statudol, y Trydydd Sector a'r Sectorau Annibynnol.

**Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i gasglu gwybodaeth am effeithiau wrth wneud gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol.**

Trwy drafod ac ystyried gofynion wrth iddynt godi ac amlinellu unrhyw faterion yn yr asesiad hwn yn ôl yr angen.

| |
|---|
| Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wnaed ar y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Camddefnyddio Sylweddau. Bydd cydweithwyr yn y Tîm Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau hefyd yn gwneud gwaith monitro yn ystod cyfarfodydd adolygu chwarterol gyda Byrddau Cynllunio Ardal . |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwaith gwerthuso, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| Amherthnasol. |

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>**Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu gweithredu.** |
| **Enw:** |
| Chris Gittins |
| **Adran:** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad(au):** |
| Adolygwyd ddiwethaf - Hydref 2019 |
| Llofnod:<br><br>Chris Gittins |
| |
| Dyddiadau Adolygu Arfaethedig:<br><br>I'w adolygu yn ystod cyfnod ymgynghori cynllun cyflawni 2019-22. |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** |
|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect ar y cam hwn o'r datblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r |

| | |
|---|---|
| rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnod: Tracey Breheny<br><br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad: 17.10.19 |